




NEWYDDION YR ACADEMI

Y CYLCHLYTHYR O ACADEMI DELWEDDU GENEDLAETHOL CYMRU



CROESO

CAROLINE PARKER
RHEOLWR SYSTEMAU CLINIGOL

Rwy'n falch iawn o ddod â'r rhifyn diweddaraf i chi. Yn y cylchlythyr hwn, rydym yn gyffrous i groesawu a gweithio gyda'n hyfforddwyr newydd.

Rydym wedi derbyn adborth rhagorol gan yr RCR ynglŷn â'n harholiadau diweddar, sy'n dyst i waith caled ac ymroddiad pawb.

Dros gyfnod yr Ŵyl, cawsom fan Bron Brawf Cymru yn ein maes parcio, ac mae'r adborth o'r fenter hon wedi bod yn hynod gadarnhaol. Yn ogystal, yn ddiweddar cynhaliwyd arddangosfa POCUS llwyddiannus ar gyfer uwchsain pwynt gofal, gan dynnu sylw at y datblygiadau a'r cymwysiadau yn y maes hwn.

Wrth edrych yn ôl, rydym yn falch o rannu bod gennym boster yn nigwyddiad RCR AI ym mis Chwefror, a ddyluniwyd gan Dr. Dr Phil Wardle, Dr Daniel Brzozowski, a minnau, Caroline Parker. Roeddem yn awyddus i rannu ein mewnwediadau a'n newyddbethau gyda'r gymuned ehangach.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch ymgysylltiad parhaus. Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau'r rhifyn hwn o Gylchlythyr ADGC!



DEWCH I WYBOD:

DIWEDDARIAD AR
HYFFORDDI

2

ARHOLIADAU FRCR

3

ATHRAWON TEITHIOL

4-5

ARDDANGOSFA POCUS

6-7

BRON BRAWF CYMRU

8

CYRSIAU A
DIGWYDDIADAU

9-11



DIWEDDARIAD AR HYFFORDDI

HOFFAI ADGC ESTYN CROESO CYNNES I'N HYFFORDDWYR ACADEMI NEWYDD.



DR PATRICK FIELDING

Mae Dr Patrick Fielding yn Radiolegydd Ymgynghorol yn Ysbyty Athrofaol Cymru a PETIC, ac mae wedi bod yn gweithio fel Cyfarwyddwr Clinigol ers 2010. Gyda ffocws ar feddyginiaeth niwclear a delweddu PET, mae'n cyfrannu at nifer o bwyllgorau cenedlaethol y DU, gan gynnwys Pwyllgor Ymgynghorol Arbenigol Meddygaeth Niwclear a Phwyllgor Safonau Proffesiynol BNMS. Mae hefyd yn cynrychioli Cymru fel cynghorydd rhanbarthol BNMS. Mae Dr Fielding wedi ymrwymo i hyrwyddo hyfforddiant radioleg radioniwclid, gan sicrhau bod yr holl radiolegwyr yn cael sylfaen gadarn mewn meddygaeth niwclear a delweddu PET, tra'n ehangu cyfleoedd i staff lefel uwch dan hyfforddiant.



DR ALEXANDER HOLBOROW

Fel Radiolegydd Clinigol Ymgynghorol sydd newydd gymhwyso, sydd bellach wedi'i leoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, mae gyrfa Dr Holborow wedi tyfu o hyfforddiant meddygol ôl-raddedig yng Nghymru i rolau radioleg glinigol uwch, wedi'i danlinellu gan ymroddiad cryf i addysg, gyda diddordeb arbennig mewn Radioleg Cyhyrysgerbydol. Mae ei bortffolio addysgu yn cynnwys creu adnoddau dysgu digidol, dylunio cyfresi darlithoedd cynhwysfawr ar gyfer cydweithwyr iau, ac arwain sesiynau grŵp bach i wella sgiliau ymarferol – gyda hanes o greu rhaglenni addysgu rhanbarthol a chenedlaethol arobryn. Mae ganddo ymrwymiad cryf i feithrin hyfedredd clinigol y genhedlaeth nesaf trwy dechnegau addysgu modern.



DR RHYS THOMAS

Cwblhaodd Dr Rhys Thomas ei hyfforddiant radioleg yn Ne Cymru yn 2021, gan arbenigo mewn delweddu cyhyrysgerbydol (MSK). Yn dilyn hyfforddiant, dilynodd hyfforddiant MSK uwch trwy Gymrodoriaethau yn Adelaide, De Awstralia, a Christchurch, Seland Newydd, gan ennill arbenigedd mewn radioleg MSK diagnostig ac ymyrraethol. Gweithiodd Dr Thomas fel Radiolegydd Ymgynghorol yn Christchurch, gan gyfrannu at y sectorau gofal iechyd cyhoeddus a phreifat am flwyddyn ac mae bellach wedi dychwelyd i Gaerdydd ac mae bellach yn ymarfer fel Radiolegydd MSK yn Ysbyty Athrofaol Cymru (UHW), gan ddarparu gwasanaethau delweddu arbenigol a gweithdrefnau ymyrraethol.



ARHOLIADAU FRCR

MAE ACADEMI DDELWEDDU GENEDLAETHOL CYMRU WEDI CEFNOGI COLEG BRENHINOL Y RADIOLEGWYR DRWY GYNNAL O LEIAF 35 O ARHOLIADAU BOB BLWYDDYN AR GYFER ONCOLEG GLINIGOL A RADIOLEG GLINIGOL ERS 2020.



Mae lleoedd ar agor i bob ymgeisydd, ac rydym yn croesawu ymgeiswyr o bob cwr o'r byd yn rheolaidd, gyda'r mwyafrif wedi'u lleoli ym Mryste, De Lloegr a De Cymru.

Mae llawer yn dewis NIAW am ei gyfleusterau yn ogystal â'i leoliad cyfleus. Mae ymgeiswyr yn canmol cyfleusterau'r Academi, awyrgylch croesawgar, ac yn darparu adborth cadarnhaol a pharodrwydd i'w argymhell i gydweithwyr yn atgyfnerthu ei enw da fel canolfan arholi RCR.

MAE ACADEMI DDELWEDDU GENEDLAETHOL CYMRU YN PARHAU I YMRWYMO I GYNNAL AMGYLCHEDD CEFNOGOL AR GYFER LLWYDDIANT ARHOLIADAU



GWEITHIWR RADIOLEG GLINIGOL DE CYMRU DAN HYFFORDDIANT

Hoffwn i a gweddill fy mlwyddyn ddweud diolch am redeg 2A i ni ddod. Aeth popeth yn llyfn. Roedd Henry a Steve yn hwyliog ac yn garedig, ac yn ein gwneud ni'n gartrefol. Mae'r diolch mwyaf oll yn mynd i Andy wrth gwrs. Fe wnaeth e redeg yr arholiad yn berffaith - dwi ddim yn meddwl bod gan unrhyw un problem.

Yn amlwg mae hyn yn ddefnyddiol iawn yn ystod cyfnod sy'n achosi llawer o straen. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r gallu i sefyll yr arholiad mewn lleoliad cyfarwydd ac agos felly diolch i bawb sy'n chwarae rhan yn ei gynnal.



GWEITHIWR ONCOLEG GLINIGOL DE CYMRU DAN HYFFORDDIANT

Rydw i wedi mynychu ADGC ar gyfer diwrnodau hyfforddi ac arholiadau ac wedi ei weld yn lleoliad ardderchog i'r ddau. Mae'r staff, cyfleusterau TG ac ystafelloedd ymylol ac wedi bod yn dda iawn.

Rwy'n credu ei fod yn un o'r cyfleusterau gorau sydd gennym yn Ne Cymru ac yn edrych ymlaen at fynychu digwyddiadau yno yn y dyfodol.



GWEITHIWR ONCOLEG GLINIGOL DE CYMRU DAN HYFFORDDIANT

Fe wnes i eistedd fy arholiad oncoleg clinigol FRCR rhan 2 ym mis Medi 2022 - roedd yn broses syml iawn. Roedd y lleoliad yn hawdd iawn i'w ddarganfod, dim ond 3 ohonom oedd yn eistedd gyda'n gilydd yn y lleoliad ond roedd y staff yn hynod groesawgar, fe wnaethon nhw dawelu ein meddyliau. Rwy'n cofio llawer o wên a geiriau o anogaeth ar ôl diwedd pob dydd. Roedd yn wych peidio â gorfod poeni am barcio, ac roedd yr agosrwydd at Starbucks yn golygu fy mod i'n gallu cael fy hwb caffein cyn yr arholiad!

Hefyd, roedd yn hyfryd peidio â gorfod teithio'r holl ffordd i Lundain, ac roedd yn teimlo'n llawer mwy personol na phrofiadau arholiadau blaenorol (efallai gan fod llai ohonom!). Roedd yn braf peidio â chael cymaint o weithwyr dan hyfforddiant i gyd yn aros i fynd i'r arholiad, a dwi'n cofio cyfrannu cymaint at fy mhryder cyn yr arholiad!



ATHRAWON TEITHIOL

MAE ADGC WEDI CROESAWU ATHRAWON GWADD ERS 2019 AR RAN CYNLLUN HYFFORDDI DE CYMRU.

Eleni, croesawodd ADGC yr Athrawon Teithiol Dr Rajesh Botchu, Dr John Adu a Dr Sarah McWilliams, a rannodd arbenigedd ac amlygodd eu harbenigeddu.



DR RAJESH BOTCHU

Ym mis Ionawr 2025, cyflwynodd Dr Rajesh Botchu sesiwn rithwir ddifyr fel rhan o'r gyfres o ddarlithoedd yr Athro Teithiol, wedi'i anelu at Weithwyr Radioleg dan Hyfforddiant De Cymru. Rhannodd Dr (Prof) Botchu, Radiolegydd Cyhyrsgerbydol Ymgynghorol uchel ei barch yn yr Ysbyty Orthopedig Brenhinol yn Birmingham, fewnwelediadau amhrisiadwy ar ystod o bynciau.

Roedd ei ddarlith yn cynnig cyngor ymarferol ar gymryd rhan mewn ymchwil, gan dynnu sylw at bwysigrwydd adeiladu tîm amrywiol a medrus i sicrhau canlyniadau llwyddiannus. Rhoddodd hefyd awgrymiadau defnyddiol ar diwmorau esgyrn, gan bwysleisio bod adnabod tiwmorau yn aml yn dibynnu ar ffactorau fel oedran y claf a lleoliad y tiwmor.

DR JOHN ADU

Gwnaeth Dr John Adu, Radiolegydd Diagnostig ac Ymyrraeth Paediatrig Ymgynghorol yn Ysbyty Sant Siôr, argraff ar Weithwyr dan Hyfforddiant Radioleg De Cymru gyda chyfres o ddarlithoedd sy'n canolbwyntio ar baediatreg. Yn enwog fel hyfforddwr brwdfrydig a gwybodus, roedd sesiwn Dr Adu yn cynnig mewnwelediadau gwerthfawr i ffilmiau plaen paediatrig, canllawiau trawma, ac argyfyngau abdomenol. Gadawodd ei arddull addysgu rhyngweithiol, gan gynnwys technegau ymarferol ar gyfer adolygu pelydrau-X ac adnabod arwyddion cynnil fel "onglau" a "chrychion," argraff barhaol. Pwysleisiodd y sesiwn bwysigrwydd radioleg paediatrig fel is-arbenigedd hanfodol ac ysbrydolodd gweithwyr dan hyfforddiant i ddyfnhau eu harbenigedd.





ATHRAWON TEITHIOL

MAE ADGC WEDI CROESAWU ATHRAWON GWADD ERS 2019 AR RAN CYNLLUN HYFFORDDI DE CYMRU.

DR SARAH MCWILLIAMS

Ym mis Mawrth, cyflwynodd Dr Sarah McWilliams, Radiolegydd Ymgynghorol y Fron yn Ysbyty Sant Siôr, sesiwn radioleg y fron ddiddorol. Yn arweinydd mewn addysg ac ymchwil fyd-eang, ac yn Brif Ymchwilydd ar gyfer treial FAST MRI, roedd Dr McWilliams yn ymdrin â phynciau fel mamograffeg â lliw cyferbynnu, mewnblaniadau'r fron, a thechnegau biopsi. Roedd gweithwyr dan hyfforddiant yn gwerthfawrogi'r ymarfer biopsi ymarferol a'r gloywi ar patholeg y fron, gydag uchafbwyntiau gan gynnwys arwyddion mamogram cynnil, ymddangosiadau mewnblaniadau, a chydabod y gall hyd yn oed briwiau diniwed fod yn malaen.



SESIYNAU ATHRAWON TEITHIOL SYDD AR DDOD

17 MEHEFIN

DR MOHIT AGARWAL

Delweddu Pen a'r Gwddf



19 MEHEFIN

DR LALANI CARLTON JONES & DR HELEN CLIFFE

Delweddu Niwroradiolegol



Mae darlithoedd Athrawon Teithiol yn agored i bob gweithiwr proffesiynol delweddu ledled GIG Cymru sydd â diddordeb mewn hyrwyddo eu gwybodaeth a'u harbenigedd.

I gofrestru neu ddarganfod mwy, sganiwch y cod QR neu cysylltwch â Thîm Gweinyddu ADGC.





ARDDANGOSFA POCUS: EDRYCH YN ÔL

OAr Ionawr 21 a 22, cynhaliodd Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru Ddigwyddiad Arddangos POCUS (Uwchsain Pwynt Gofal). Daeth y digwyddiad hwn â noddwyr blaenllaw y diwydiant at ei gilydd, gan gynnwys Butterfly, Canon, Celtic SMR, eSaote, Fujifilm Healthcare, Fujifilm Sonosite, GE Healthcare, Mindray, MIS, a Philips. Roedd pob noddwr yn arddangos amrywiaeth o beiriannau POCUS, gan ddarparu rhyngweithiadau ymarferol a chyfleoedd i staff y GIG ar gyfer trafodaethau manwl. Mae'r digwyddiad yn cefnogi gweithwyr proffesiynol y GIG i wneud penderfyniadau caffael gwybodus, gan sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r dechnoleg uwchsain fwyaf effeithiol ac arloesol sydd ar gael.

Profodd digwyddiad diweddar Arddangosfa POCUS i fod yn brofiad gwerthfawr i fynychwyr, gydag adborth cadarnhaol i raddau helaeth yn tynnu sylw at ei ddefnyddioldeb.

Derbyniodd y lleoliad a'r cyfleusterau gymeradwyaeth gref, gyda'r mwyafrif o'r mynychwyr yn eu graddio'n uchel, ochr yn ochr ag adborth yr un mor gadarnhaol am y lluniaeth a ddarperir. Ar y cyfan, ystyriwyd bod y digwyddiad yn werth chweil ac roedd llawer o fynychwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymgysylltu ag arddangoswyr ac archwilio offer newydd a phresennol, gyda'r mwyafrif yn gweld bod yr arddangosfa yn effeithiol iawn wrth hwyluso'r arddangosiadau hyn.

Yn galonogol, mynegodd mwyafrif y mynychwyr ddiddordeb mewn mynychu digwyddiadau arddangos yn y dyfodol, gan atgyfnerthu gwerth y cynulliadau hyn. Mae'r trefnwyr yn ddiolchgar am yr adborth craff a byddan nhw'n ystyried yr awgrymiadau hyn i sicrhau bod digwyddiadau yn y dyfodol hyd yn oed yn fwy diddorol ac yn fuddiol i'r holl gyfranogwyr.



JOANNE SEWELL - PCGC

Cynigiodd y digwyddiad arddangos hwn fewnwelediadau gwerthfawr i'r datblygiadau technolegol diweddaraf wrth arddangos cymwysiadau arloesol yn POCUS.

Darparodd gyfleoedd rhwydweithio i gyflenwyr a gweithwyr proffesiynol, meithrin cydweithredu, a gwell dealltwriaeth o rôl uwchsain mewn diagnosteg a thriniaeth, i gyd o fewn yr Academi Ddelweddu Genedlaethol anhygoel! Edrychwn ymlaen at y digwyddiad nesaf.





ARDDANGOSFA POCUS: EDRYCH YN ÔL

HOFFAI ACADEMI DDELWEDDU GENEDLAETHOL CYMRU DDIOLCH I'R HOLL
ARDDANGOSWYR A FYNCHODD Y DIGWYDDIAD:



BUTTERFLY



CANON



CELTIC SMR



ESAOTE



FUJIFILM
HEALTHCARE



FUJIFILM
SONOSITE



GE
HEALTHCARE



MINDRAY



MIS
HELATHCARE



PHILIPS



UNED SYMUDOL BRON BRAWF CYMRU YN ADGC

Darparodd Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru le parcio i Fan Profi Symudol Bron Brawf Cymru yn ystod Rhagfyr 2024 a Ionawr 2025. Mae'r uned symudol yn aml wedi'i lleoli yn Sainsbury's, Pen-y-bont ar Ogwr, ond oherwydd cyfnod y Nadolig a'r cynnydd yn nifer y siopwyr roedd angen iddynt ddod o hyd i leoliad arall ac roedd ADGC yn hapus i ymrwymo.



● Wedi mynychu ● DNA (heb fynychu) ● Wedi aildrefnu ● DNA parhaus



Roedd yr uned symudol yn weithredol am 14 diwrnod tra roedd wedi'i lleoli yn NIAW ac yn ystod y cyfnod hwn cafodd 821 o fenywod eu gwahodd ar gyfer apwyntiadau sgrinio'r fron. Mynychodd 46% o fenywod eu hapwyntiadau, 23% o fenywod wedi'u haildrefnu, doedd 22% o fenywod ddim yn mynychu eu hapwyntiad (DNA) ac mae 9% o fenywod yn ddi-fynychwyr parhaus ac nid ydynt erioed wedi mynychu ar ôl gwahoddiad.

“

NON LAWRENCE, IECHYD CYHOEDDUS CYMRU

O safbwynt y gwasanaeth rydym yn ddiolchgar ein bod wedi gallu parcio yn ADGC ar fyr rybudd. Hyd yn hyn, ni ellir rhoi ffigurau cywir o gyfranogwyr sgrinio a oedd yn cael eu galw'n ôl ar gyfer asesiad pellach ond gan weithio ar y ffigurau disgwylidig, o'r 378 o gyfranogwyr sgrinio a chafodd eu sgrinio, bydd 23 o gyfranogwyr wedi cael eu galw yn ôl ar gyfer delweddu pellach ac o'r rheini, bydd 4 yn cael diagnosis o ganserau. Rwy'n gobeithio nad oedd presenoldeb y fan symudol wedi achosi gormod o anghyfleustra i bawb sy'n gweithio neu'n ymweld ag ADGC a diolch eto am ganiatáu i ni fod yno.



NIAW AGORED COURSES

ADULT PERIPHERAL VENOUS CANNULATION COURSE

Mae cwrs Gosod Caniwla Gwythiennol Ymylol i Oedolion Lefel 3 Agored Cymru (cwrs peilot ar 17 Medi 2024) wedi'i gynllunio i ddarparu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i Weithwyr Cymorth Clinigol Radioleg ar gyfer gosod gwythiennol ymylol i oedolion ar gyfer gwasanaethau clinigol y GIG. Mae'r hyfforddiant pwysig hwn wedi cael ei arwain gan ADGC i fynd i'r afael ag angen, a rennir gan Adrannau Radioleg yng Ngrŵp Gweithlu ac Addysg Delweddu GIG Cymru oherwydd rhwystrau mewn darpariaeth hyfforddiant arall. Mae'r cwrs byr hwn yn darparu'r wybodaeth a'r ymarfer efelychu dan oruchwyliaeth i gyrraedd y cymhwysedd sydd ei angen i fewnosod canwla mewnwythiennol yn ddiogel. Mae'r canwlâu hyn yn galluogi mynediad i'r system wythiennol ymylol ar gyfer ymchwiliadau diagnostig (fel chwistrellu lliw cyferbynnu mewnwythiennol mewn archwiliadau CT) neu driniaethau (fel therapi hydradiad mewnwythiennol a gwrthfotigau).

Prif nod y cwrs oedd sicrhau bod cynrychiolwyr yn cael dealltwriaeth gadarn o osod caniwla gwythiennol ymylol i oedolion o fewn fframwaith canllawiau cyfreithiol, eu cwrpas ymarfer eu hunain, a phrotocolau lleol. Erbyn diwedd y sesiwn, roedd disgwyl i gyfranogwyr ddangos ymarfer diogel ac effeithiol yn y weithdrefn glinigol hanfodol hon.

YMDRECH AR Y CYD WRTH DREFNU A CHYFLWYNO CWRS

Trefnwyd y cwrs gan Patricia Mathias-Lloyd a Teresa Davies-Elin o AaGIC (Addysg a Gwella Iechyd Cymru), ochr yn ochr â Mair Davidson a Lea Owen o NIAW. Cafodd yr hyfforddiant ei gyflwyno gan ddau o hyfforddwyr NIAW, Dr Alison Yates (Radiolegydd Ymgynghorol, BIPCTM) a Dr Christopher Williams (Radiolegydd Ymgynghorol, BIPAB). Mynychodd saith cynrychiolydd y cwrs, gan dderbyn cyfarwyddyd manwl mewn gwybodaeth ddamcaniaethol a sgiliau clinigol ymarferol.

ADBORTH CADARNHAOL A DATBLYGIAD YN Y DYFODOL

Roedd adborth gan y cynrychiolwyr yn hynod gadarnhaol, gyda 100% o fynychwyr yn gweld y cwrs yn ddiddorol ac yn rhyngweithiol. Cytunodd yr holl gyfranogwyr fod y sesiwn yn cael ei chynnal ar y lefel briodol ar gyfer eu hanghenion proffesiynol. O ystyried llwyddiant y peilot hwn, mae'r cwrs yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i'w ddatblygu ymhellach i wella'r profiad ar gyfer carfanau yn y dyfodol (mae rhestr aros yn barod!). Mae wedi bod yn wych bod y cydweithrediad hwn rhwng ADGC a AGIC wedi gallu ymateb mor gyflym i angen gwasanaeth cyfredol gyda hyfforddiant sy'n cael ei gydnabod yn ffurfiol.





CYRSIAU A DIGWYDDIADAU SYDD AR DDOD

ENW'R CWR/S/DIGWYDDIAD

Cwrs Dehongli Delwedd EM
FAMUS & FUSIC - Cwrs Abdomenol ac Arennol
FAMUS A FUSIC - Cwrs Ysgyfaint
Cwrs Mynediad Fasgwlaidd dan Arweiniad Uwchsain
Cwrs Galon FUSIC
Cwrs Mynediad Fasgwlaidd dan Arweiniad Uwchsain
Cwrs Adolygu FRCR IIB
FAMUS & FUSIC - Cwrs Abdomenol ac Arennol
FAMUS A FUSIC - Cwrs Ysgyfaint

DYDDIAD

Dydd Llun 14 Ebrill 2025
Dydd Iau 8 Mai 2025 (AM)
Dydd Iau 8 Mai 2025 (PM)
Dydd Llun 12 Mai 2025
Dydd Iau 22 Mai 2025
Dydd Llun 2 Mehefin 2025
Dydd Iau 5 a dydd Gwener 6 Medi 2025
Dydd Llun 30 Mehefin 2025 (AM)
Dydd Llun 30 Mehefin 2025 (PM)

CWRS ADOLYGU FRCR IIB

Mae cwrs NIAW FRCR yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu newidiadau diweddar a gyflwynwyd gan yr RCR i fformat arholiad FRCR 2b. Mae'r rhain yn cynnwys disodli Adrodd Cyflym gydag Adrodd Achos Byr, sy'n canolbwyntio ar gamau dehongli a rheoli radiograff plaen, a chyflwyno Arholiad Viva safonol gyda marcio seiliedig ar barth.

Bydd ein cyrsiau Mehefin a Medi yn cyd-fynd â'r diweddariadau hyn i gefnogi gweithwyr dan hyfforddiant yn eu paratoi.



COFRESTRWCH AR CYFER Y
CWRS ADOLYGU FRCR IIB YMA





CYRSIAU A DIGWYDDIADAU SYDD AR DDOD

CYNHADLEDD FLYNYDDOL Y RHAGLEN DDELWEDDU GENEDLAETHOL 2025

Gan barhau â'r traddodiad o ddathlu Diwrnod Radiograffeg y Byd, mae'r Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol yn falch iawn o gyhoeddi dychweliad ei chynhadledd flynyddol. Unwaith eto, bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yn Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru ac mae'n addo ysbrydoli gyda'r thema eleni: Llunio'r Dyfodol a Thrawsnewid Delweddu yng Nghymru drwy Arloesi ac Ymchwil.

Derbyniodd cynhadledd 2024 adborth hynod gadarnhaol gan gynrychiolwyr, gyda 100% o'r ymatebwyr yn mynegi eu bod yn awyddus i fynychu digwyddiadau yn y dyfodol. Bydd Cynhadledd Flynyddol y Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol yn cael ei chynnal ar **DDYDD GWENER 7 TACHWEDD 2025**.

Bydd cofrestriadau yn agor yn fuan, gyda chyhoeddiadau pellach yn cael eu rhannu trwy ein cylchlythyr a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol.

RHAGLEN DDELWEDDU GENEDLAETHOL CHNHADLEDD FLYNYDDOL 2025

*Llunio'r Dyfodol: Trawsnewid Delweddu yng
Nghymru drwy Arloesi ac Ymchwil*



CADWCH Y DYDDIAD

National Imaging Academy Wales
Dydd Gwener 7 Tachwedd 2025



Academi Ddelweddu
Genedlaethol Cymru
National Imaging
Academy Wales



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Rhaglen Delweddu
Genedlaethol
National Imaging
Programme



Academi Ddelweddu
Genedlaethol Cymru
National Imaging
Academy Wales



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Rhaglen Delweddu
Genedlaethol
National Imaging
Programme





@nationalimagingacademywales



@ImagingAcademy



@academiddelwedducymru



National Imaging Academy Wales

[HTTPS://IMAGINGACADEMY.WALES/CY](https://imagingacademy.wales/cy)
